

## **PRIFFYRDD, CYMRU**

**2009 Rhif 47**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a  
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

### **GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) GWELLIANT WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup> ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi<sup>(2)</sup>, a phob pŵer galluogi arall<sup>(3)</sup>, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'r tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn orfodol at ddibenion:

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd yng Nghymunedau Rudbaxton a Spittal yn Sir Benfro, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) gwella priffyrdd a darparu mynedfa newydd i fangreoedd yn y Cymunedau a'r Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â gwelliant o'r fath i'r priffyrdd ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac
- (ch)lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth neu ddefnydd o'r priffyrdd y bwriedir eu gwella ar eu hamgylchoedd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r mapiau sy'n mynd gyda hwy wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 6.

2. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono, sydd wedi ei selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009".

(2) Caiff yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith fydd yn cael ei godi ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y map" ("*the map*") yw'r map sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) Gwelliant wrth The Kell,

Trefgarn) 2009”, a lofnodwyd gan swyddog i'r awdurdod caffael, a seliwyd â sêl gyffredin yr awdurdod caffael, ac a adnewyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40);

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” (“*the Trunk Road Order*”) yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009;

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (“*the Side Roads Order*”) yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl wrth The Kell, Trefgarn) 2009;

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009.

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGION  
CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan swyddog i Lywodraeth  
Cynulliad Cymru

Dyddiedig 4 Rhagfyr 2009

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r

pwerau hyn bellach yn arferadwy gan  
Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
GWEINIDOGION CYMRU  
(CEFNFFORDD LLUNDAIN I  
ABERGWAUN (YR A40) GWELLIANT  
WRTH THE KELL, TREFGARN) 2009**

**PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN  
ORFODOL WRTH THE KELL,  
TREFGARN, SIR BENFRO.**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru ar 4 Rhagfyr 2009 wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn:-

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd yng Nghymunedau Rudbaxton a Spittal yn Sir Benfro, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant wrth The Kell, Trefgarn) 2009;
- (b) gwella priffyrdd a darparu mynedfa newydd i fangreoedd yn y Cymunedau a'r Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Ffyrdd Ymyl wrth The Kell, Trefgarn) 2009;

- (c) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â gwelliant o'r fath i'r priffyrdd ac â gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac
- (ch) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth neu ddefnydd o'r priffyrdd y bwriedir eu gwella ar eu hamgylchoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r map sy'n mynd gydag ef ar bob adeg resymol o 16 Rhagfyr 2009 hyd at 27 Ionawr 2010 yn swyddfeydd Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1TP ac yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Daw'r Gorchymyn fel y'i gwnaed i rym ar y dyddiad y caiff yr Hysbysiad hwn ei gyhoeddi gyntaf ond caiff person a dramgwyddir gan y Gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i ddyddiad ei weithredu, gwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail -

- a. nad oes pŵer i roi'r awdurdodiad a roddir gan y Gorchymyn, neu
- b. bod ei fuddiant wedi ei ragfarnu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r hysbysiad cyhoeddus yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2009').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu

Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd,  
CF10 3NQ.

## **DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD**

### **NODYN**

- a. mae'r tir a geir ym mhob eitem isod yn cael ei adnabod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drwy gyfrwng y rhif neu'r rhifau a osodir yn erbyn yr eitem honno isod.
- b. mae cyfeiriadau at berchenogaeth yn gyfeiriadau at berchenogaeth neu berchenogaeth honedig ar adeg paratoi'r Gorchymyn a dim ond at ddibenion adnabod y tir y maent wedi eu datgan.

### **Yng Nghymuned Rudbaxton:-**

Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40 a llain ymyl y ffordd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 a rhan o dir pori sy'n rhannau o dri chae gwahanol ynghyd â chloddiau sy'n ffiniau, corlan stoc a mynedfeydd cerbydau i'r caeau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40; Rhan o dir pori ynghyd â chloddiau sy'n ffiniau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40; Yr hawl i fynd ar dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw ffens i rwystro moch daear, gatiau moch daear, gât i gae a phibellau draenio tir; Yr hawl i fynd ar dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw cloddiau terfyn. (Plotiau 1, 1A, 1B, 1C, 1D a 1E).

Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40 gan gynnwys cilfan a llain ymyl y ffordd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40. (Plot 2).

Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40 a llain ymyl y ffordd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40. (Plotiau 3 a 3A).

Yng Nghymuned Spittal:-

Rhan o dir pori sy'n rhannau o ddau gae gwahanol a phadog ynghyd â chloddiau sy'n ffiniau a gatau i'r caeau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 ynghyd â rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40 a llain ymyl y ffordd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 a rhan o dir pori a pherth neu wrych; Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40, llain ymyl y ffordd, arglawdd priffordd a thir prysgwydd coediog gan gynnwys rhan o gwrs dŵr di-enw gyda chwlfert cysylltiedig a mur pen, a mynedfa i gae, oll i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40; Yr hawl i fynd ar dir pori a phadog i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd priffordd, ffens i rwystro moch daear, gatau a thanffordd moch daear, pibellau draenio tir a chwlfert sy'n bibell a mur pen, gatau i gaeau a ffensys amddiffyn; Yr hawl i fynd ar dir prysgwydd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 ac i'r gorllewin o SoDdGA Chwarel Pont Trefgarn at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw ffens i rwystro moch daear a gatau a thanffordd moch daear. (Plotiau 4, 4A, 4B, 4C, 4D, 4E, 4F, 4G, 4H a 4I).

Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40 gan gynnwys rhan o gilfan a llain ymyl y ffordd ac arglawdd priffordd coediog i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40; Rhan o arglawdd priffordd coediog i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40 ac i'r dwyrain o afon Cleddau Wen. (Plotiau 5, 5A, 5B a 5C).

Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40, llain ymyl y ffordd, arglawdd priffordd a thir prysgwydd coediog gan gynnwys mynedfa i gae, oll i'r gorllewin o Gefnffordd yr A40; Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40, llain ymyl y ffordd, arglawdd priffordd a thir prysgwydd coediog gan gynnwys pentanau'r bont ffordd dros afon Cleddau Wen, oll i'r gorllewin o

Gefnffordd yr A40; Rhan o hanner lled Cefnffordd yr A40, llain ymyl y ffordd, arglawdd priffordd a thir prysgwydd coediog gan gynnwys rhan o gwrs dŵr di-enw gyda chwlfert cysylltiedig a mur pen a phentanau'r bont ffordd dros afon Cleddau Wen, oll i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40; Yr hawl i fynd i gwrs dŵr di-enw ac ar lannau'r ffrwd i bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw ffens a silff i rwystro mamaliaid a phibell gollwng dŵr storm ac iddi ddiamedr mewnol o 300mm a mur pen; Yr hawl i fynd ar dir prysgwydd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A40 ac i'r gorllewin o SoDdGA Chwarel Trefgarn at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladau a chynnal a chadw ffens i rwystro moch daear. (Plotiau 6, 6A, 6B, 6C a 6D).

**M D BURNELL**

YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A  
LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH  
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU